

Strategaeth Cadwediagaeth Ddigidol, 2012-2015

Rhagair

Mae'r strategaeth cadwediagaeth ddigidol hon yn amlinellu'r hyn y mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru (LIGC) yn bwriadu ei wneud i ddiogelu deunyddiau digidol yn ystod y tair blynedd nesaf. Mae'n adeiladu ar y sylfeini a sefydlwyd gan y ddwy strategaeth cadwediagaeth ddigidol gyntaf. Mae'r strategaeth newydd hon yn gyson â strategaeth gyffredinol y Llyfrgell, sef *Y Llyfrgell Ystwyth: Strategaeth y Llyfrgell 2011-14*, sy'n rhoi pwyslais ar wireddu potensial y Llyfrgell trwy brosesau busnes effeithiol a chanolbwyntio ar hyblygrwydd y sefydliad, y defnydd a wneir o'r cynnwys a chysylltiadau allanol.

1 Pwrpas y ddogfen

Mae'r ddogfen hon yn darparu'r fframwaith ar gyfer gweithgaredd cadwediagaeth ddigidol LIGC yn ystod y tair blynedd nesaf. Mae gosod y gweithgareddau hyn mewn cyd-destun trwy amlinellu tueddiadau fydd yn dylanwadu ar gadwediagaeth ddigidol yn y blynyddoedd nesaf a thrwy adolygu'r hyn y mae'r polisi a'r strategaeth cadwediagaeth ddigidol ddiwethaf wedi ei gyflawni. Mae hefyd yn disgrifio natur y casgliad digidol, nod ac amcanion y strategaeth, sut y gweithredir y strategaeth, dulliau cyflawni, cysylltiad y strategaeth â strategaethau eraill LIGC ac mae'n amlinellu'r risgiau pe na weithredid y strategaeth.

2 Cyd-destun

Nid yw'n bosibl cael mynediad heb gadwediagaeth. Mae mynediad tymor hir at unrhyw fath o ased, waeth beth yw ei ffurf, yn dibynnu ar ymrwymiad y sefydliad a'r gofal a roddir i gasgliadau. Er mwyn sicrhau mynediad parhaus at ddeunydd digidol, mae'n rhaid i'r sefydliad sy'n ei ddiogelu fod â'r seilwaith, y gallu, y sgiliau a'r adnoddau i allu sicrhau ei fod yn gyfarwydd â'r datblygiadau cyson yn y maes digidol.

Mae'r tair blynedd nesaf yn debygol o fod yn gyfnod o gryn her i LIGC. Bydd toriadau sylweddol ar wariant cyhoeddus, a bydd hynny'n effeithio ar yr adnoddau fydd ar gael tuag at gadwediagaeth ddigidol. Hefyd bydd mwy a mwy o ddeunydd digidol ar gael, yn cynnwys testun wedi ei greu gan ddefnyddwyr data ymchwil, blogiau, gwefannau a negeseuon Twitter. Mae darllenwyr e-lyfrau ar gynydd ac o fewn y degawd nesaf, rhagdybir y bydd y rhan fwyaf o deitlau'n cael eu cyhoeddi ar ffurf electronig neu ddeuol.

Mae casgliadau archifol yn datblygu'n gynyddol i fod yn gyfuniad o gynnwys digidol ac analog. Mae'r ffaith ei bod yn hawdd cyhoeddi llyfrau electronig hefyd yn ei gwneud yn anos gwahaniaethu rhwng beth sydd wedi ei gyhoeddi a heb ei gyhoeddi. Mae cofnodion y sefydliad, megis cofnodion cyfarfodydd ac adroddiadau, oedd yn arfer bod yn rhan o'r casgliad archifol, bellach yn cael eu cyhoeddi ar y we fel mater o drefn.

Mae LIGC hefyd yn ychwanegu ei chorff sylweddol ei hun o gynnwys digidol trwy'r gwaith helaeth y mae wedi'i wneud i ddigido ei daliadau. Yn ogystal â'r deunydd

clywedol sy'n cael ei gasglu gan Archif Sgrin a Sain Cymru, mae LIGC yn disgwyl casgliad sylweddol gan ITV Wales. Bydd y cynnwys hwn yn cael ei newid i ffurf ddigidol gan LIGC.

Mae gan LIGC gyfrifoldeb i ddefnyddio ei hadnoddau'n effeithiol ac yn ddoeth. Nod ei Rhaglen Trawsnewid Busnes, a ddechreuwyd yn 2011, yw gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau LIGC trwy broses effeithiol a datblygu gweithlu. Mae cadwedigaeth ddigidol yn waith costus sy'n galw am adnoddau a gallu. Nod y strategaeth hon yw hwyluso cynaliadwyedd digidol mewn ffordd effeithiol a chost effeithiol.

3 Cyflawniadau Polisi a Strategaeth Cadwedigaeth Ddigidol LIGC, 2008-2011

Ers 2008 bu cryn gynnydd mewn ymgorffori cadwedigaeth ddigidol yn niwylliant ac isadeiledd LIGC. Roedd strategaeth 2008 yn rhestru tri ar ddeg o amcanion strategol oedd wedi eu hanelu'n fras at sicrhau rheoli cylch oes, datblygu isadeiledd technegol, hybu arfer da a gwneud gwaith ar y cyd. Gwnaed cynnydd ym mhob un o'r meysydd hyn, fel y disgrifir isod:

Rheolir cylch oes yr asedau digidol a ddewisir ar gyfer eu diogelu yn y tymor hir gan y System Rheoli Asedau Digidol (DAMS). Caiff asedau sy'n cael eu hamlyncu i DAMS eu gwirio i weld a ydynt yn gywir ac yn gyflawn. Rheolir yr asedau trwy greu dogfennau METS (Metadata and Encoding Transmission Standard) sy'n cynnwys metadata gweinyddol, technegol a chadwedigaethol i sicrhau mynediad parhaus. Mae'r dogfennau hyn yn cofnodi copïau cadwedigaeth yr asedau digidol, a gedwir yn ystorfa ddigidol y Llyfrgell, yr Archif Ddigidol. Gwneir y gwaith hwn o fewn fframwaith y Model Systemau Gwybodaeth Archifol Agored (OAIS). Datblygwyd cynlluniau cadwedigaeth ar gyfer nifer o brosiectau sy'n cynhyrchu deunydd digidol, yn cynnwys prosiect Cylchgronau Cymru a Phrosiect Papurau Newydd a Chylchgronau Cymru.

Bu rhai datblygiadau technegol sylweddol, yn cynnwys y system oddi ar yr awyr, sy'n fodd i amlyncu'n awtomatig raglenni a ddarllendir a'r isadeiledd casglu e-draethodau sy'n amlyncu'r cofnodion hyn o sefydliadau yng Nghymru ac yn rhoi mynediad atynt yn y catalog. Roedd cyhoeddi 183,000 o ewyllysiau wedi eu digido ar wefan LIGC yn llwyddiant technegol o bwys. Er mwyn sicrhau mynediad atynt a'u diogelu, cyflwynwyd y delweddau digidol mewn ffeiliau o wahanol fformat, yn cynnwys fformat cadwedigaeth a dau gopi mynediad. Sicrhawyd bod y delweddau'n gynaliadwy trwy eu cysylltu â dogfennau METS sy'n cadw gwybodaeth am y modd y maent yn cael eu rheoli a'u defnyddio. Mae'n bosibl chwilio am yr ewyllysiau trwy'r catalog, ond fe'u cedwir yn y DAMS. Trwy ddefnydd cyson bydd y cysylltiad rhwng y catalog a'r ddelwedd yn parhau dros amser. Mae'r dogfennau METS i'w gweld ar y catalog, er mwyn ei gwneud yn bosibl i ddefnyddwyr ddeall sut mae LIGC wedi diffinio a defnyddio'r safon.

O ran hybu arfer gorau a safonau, cyflwynwyd y prosiect ewyllysiau ar gyfer gwobr y Gynghrair Cadwedigaeth Ddigidol (DPA). Er na fu'r cais yn llwyddiannus, cafwyd ymateb cadarnhaol gan y beirniaid, a nododd sawl un ohonynt fod ganddynt barch

mawr tuag at y gwaith y mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru'n ei wneud ym maes cadwedigaeth ddigidol a maes cytras¹. Teimlid bod y cais yn brosiect digidol rhagorol - sylw a wnaed gan un beirniad oedd "y dylai pob prosiect digido fod fel hwn ond gwaetha'r modd, ychydig ohonynt sy'n debyg iddo." Hefyd cydnabuwyd ymrwymiad LIGC at gynaliadwyedd ei brosiectau digido yn adroddiad JISC ar ei brosiectau digido. Gan LIGC oedd un o'r cynlluniau cadwedigaeth cryfaf o'r holl brosiectau a werthuswyd ac fe'i canmolwyd am ymrwymo i sicrhau adnoddau ar gyfer y prosiect ar ôl i'r cyllid a neilltuwyd ar ei gyfer ddod i ben².

Mae LIGC hefyd wedi datblygu'r gwaith a wneir ar y cyd ac mae wedi parhau i weithio gyda'r Llyfrgell Brydeinig i ddiogelu deunydd digidol sydd wedi ei gyhoeddi a allai ddod o dan y ddeddfwriaeth berthnasol sy'n gysylltiedig â Deddf Llyfrgelloedd Adnau Cyfreithiol 2003. Hefyd, trwy Brosiect Archif Llenyddiaeth Cymru, mae wedi gweithio gydag awduron a chrewyr cynnwys i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â phroblemau cadwedigaeth ddigidol yn y broses greu. Mae'n parhau i weithio gyda Chonsortium Archifo Gwefannau'r Deyrnas Unedig i ddiogelu gwefannau o ddi-ddordeb i Gymru. Mae'n cydweithio gyda Chyngor Archifau a Chofnodion Cymru i ddatblygu gweithgareddau cadwedigaeth ddigidol mewn sefydliadau yng Nghymru.

4 Natur y casgliad digidol

Mae'r casgliad o adnoddau gwybodaeth ddigidol yn cynnwys:

- Casgliadau gweledol a chlywedol digidol sydd wedi'u creu, eu derbyn neu eu recordio oddi ar yr awyr fel rhan o gasgliadau Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru
- Copïau dirprwyol digidol o ddeunydd analog yng nghasgliadau LIGC yn deillio o raglenni digido, ynghyd â deunydd digidol cefnogol
- Cyhoeddiadau electronig a dderbyniwyd dan adnau cyfreithiol gwirfoddol
- Cofnodion corfforaethol LIGC
- Gwefannau
- Casgliadau archifol sydd wedi eu digido'n rhannol neu'n llawn
- Gwrthrychau digidol eraill megis cynnyrch mapio digidol neu ffotograffau digidol
- Deunydd adnau cyfreithiol a dderbyniwyd ar y cyd trwy drefniadau'r Llyfrgell Brydeinig
- Traethodau Prifysgol Cymru

I bwrpas cadwedigaeth ni ystyrir bod casgliad LIGC yn cynnwys deunyddiau digidol na chedwir gan LIGC ond y gellir cael mynediad atynt yn LIGC (e.e. cylchgronau arlein neu ffynonellau cyfeirio megis EEBO, Ingenta, Ancestry.com a NewsUK). Mae mynediad at y deunyddiau hyn fel arfer ar sail tanysgrifiad a chytundeb trwyddedu, a phan ddaw cyfnod y cytundeb i ben bydd mynediad at yr adnodd hefyd yn dod i ben. Nid yw LIGC fel arfer yn gallu bod yn gyfrifol am gadwedigaeth tymor hir ac am sicrhau mynediad parhaus at y deunyddiau hyn.

¹ Llythyr gan William Kilbride, Cyfarwyddwr Gweithredol DPC, i LIGC, 13 Medi 2010

² Adroddiad Prosiect JISC: Rhaglen Ddigidol: Astudiaeth Cadwedigaeth, 2009, t. 52

5 Nod y strategaeth

Nod y strategaeth yw adeiladu ar y gwaith cadwedigaeth ddigidol presennol er mwyn parhau i sicrhau cynaliadwyedd tymor hir yr asedau digidol, y rhai digidol anedig a'r rhai wedi eu digido, a gedwir gan y Llyfrgell. Yr asedau i'w diogelu'n barhaol yw'r rhai sydd eu hangen er mwyn cael mynediad parhaus at y deunydd digidol, megis meistr ffeiliau. Nid yw'n fwriad diogelu'n barhaol ffeiliau sy'n tarddu o'r meistr ffeiliau, oni bai bod rheswm penodol dros wneud hynny. Ond, os oes cynnwys ychwanegol wedi ei greu i gefnogi digido a mynediad, er enghraifft trwy OCR, byddai'r gwerth ychwanegol hwn yn dod o dan gylch gorchwyl y polisi.

Mae gan y strategaeth chwe amcan:

- Sicrhau cynaliadwyedd tymor hir yr asedau digidol hynny gan LIGC y dewiswyd eu diogelu
- Rheoli asedau digidol eraill mewn modd priodol, yn unol â phwysigrwydd a defnydd
- Gwneud gweithgareddau mewn modd cost effeithiol ac effeithlon
- Gallu ymateb i'r newid cynyddol yn yr amgylchedd trwy fod yn hyblyg ac arloesol
- Arwain gweithgareddau cadwedigaeth digidol yng Nghymru trwy hybu arfer da a safonau
- Cydweithio â chyrrff eraill i ddiogel asedau digidol Cymru

6 Gweithredu'r strategaeth

Mae gweithredu'r strategaeth yn dibynnu ar allu, hyblygrwydd ac arweinyddiaeth y sefydliad ac ar gydweithio. Bydd unrhyw waith cadwedigaeth yn gyson â'r ddogfen *Y Llyfrgell Ystwyth: Strategaeth y Llyfrgell, 2011-2014*, sy'n canolbwyntio ar allu'r Llyfrgell a'i staff i ymateb yn gadarnhaol i'r newid strategol yn yr amgylchedd.

6.1 *Hyblygrwydd y sefydliad*

Er mwyn sicrhau mynediad parhaus at ddeunydd digidol, mae'n rhaid i'r sefydliad sy'n ei ddiogelu fod â'r seilwaith, y gallu, y sgiliau a'r adnoddau i allu sicrhau ei fod yn gyfarwydd â'r datblygiadau diweddaraf yn y maes digidol. Bydd y Llyfrgell yn:

- Gweithredu llif gwaith effeithlon ar gyfer rheoli cylch oes deunydd digidol, gyda phrosesau awtomataidd os yw'n bosibl
- Darparu isadeiledd technegol cadarn, dibynadwy, diogel ac yn ôl maint ar gyfer storio deunydd digidol
- Bod yn ymwybodol o'r materion hawliau sy'n gysylltiedig â chadwedigaeth ddigidol a mesurau diogelwch technolegol a gwerthuso'r risgiau sy'n deillio o brosesau technegol, megis newid fformat, mudo ac efelychu
- Arwain o ran gweithredu safonau ac arfer gorau
- Datblygu meini prawf ar gyfer blaenoriaethu gwaith cadwedigaeth, gan sicrhau bod deunydd a flaenoriaethir yn cael ei amlyncu i'r System Rheoli Asedau Digidol (DAMS).

- Darparu amgylchedd diogel sy'n sicrhau cywirdeb asedau a gedwir y tu allan i'r DAMS
- Costio gweithgareddau ar gyfer costau cylch oes
- Darparu adnoddau digonol er mwyn cefnogi gweithgareddau cadwedigaeth ddigidol
- Annog staff i arloesi, datblygu arbenigedd a throsglwyddo sgiliau a sicrhau'r amgylchedd i wneud hyn yn bosibl
- Ymgorffori cynaliadwyedd cadwedigaeth ddigidol i weithgareddau'r llyfrgell
- Bod yn gyson â strategaethau a pholisïau eraill, yn cynnwys y Polisi Datblygu Casgliadau, y Strategaeth TGCh a'r Strategaeth Ddigidol
- Arwain o safbwynt defnyddio safonau ac arfer gorau a hybu'r rhain yng Nghymru a thu hwnt
- Manteisio ar gyfleoedd i gydweithio a gweithio mewn partneriaeth

6.2 Hyblygrwydd gwybodaeth a chynnwys

Mae sicrhau mynediad parhaus at ddeunydd digidol yn galw am ymateb rhagweithiol. Mae newidiadau technolegol yn digwydd yn gyflym, ac mae cynnwys digidol yn cael ei gynhyrchu mewn gwahanol fformatau ac mae'r llyfrgell "hybrid" yn dod yn realiti. Er mwyn cael mynediad at ddeunydd digidol, rhaid sicrhau ei fod yn ddilys, dibynadwy, diogel a bod modd ei ddefnyddio dros gyfnod o amser. Cyflawnir hyn trwy fudo data er mwyn bod yn ymwybodol o'r fformatau cyfredol, ynghyd â diogelu metadata sy'n sicrhau dilysrwydd. Er mwyn sicrhau mynediad parhaus, bydd LIGC yn:

- Amlyncu deunydd digidol i'r DAMS ar sail blaenoriaeth
- Sicrhau mynediad i ddefnyddwyr at gopiâu cyfeirio, gan sicrhau cywirdeb y copiâu archif
- Llunio llwybrau mudo ar gyfer gwahanol fformatau o ddeunydd, yn dibynnu ar natur y deunydd a'r defnydd a wneir ohono
- Sicrhau bod gwybodaeth hawliau'n cael ei chasglu fel ei bod yn bosibl newid fformatau gwrthrychau digidol wrth eu derbyn, neu yn ystod y broses fudo
- Casglu a chofnodi metadata cadwedigaeth digonol i sicrhau cynaliadwyedd
- Cysylltu metadata digidol â'r gwrthrych digidol ar y lefel priodol
- Mudo gwrthrychau digidol, ynghyd â'u metadata, i fformatau priodol
- Mynd ati i gynllunio cadwedigaeth a chynnal asesiadau risg er mwyn asesu camau cadwedigaeth

6.3 Hyblygrwydd o ran y cysylltiad â defnyddwyr

Mae defnyddwyr yn disgwyl gallu dod o hyd i'r cynnwys yn hawdd ac yn effeithiol. Nod LIGC fydd:

- Darparu mynediad cyhoeddus at bob gwrthrych digidol a gedwir yn y system rheoli asedau digidol, lle mae hawliau'n caniatáu
- Ymateb i ofynion defnyddwyr ar gyfer mynediad at gasgliadau digidol
- Ymdrin â deunydd digidol sydd wedi cronni er mwyn ei gwneud yn haws dod o hyd i adnoddau digidol

- Sicrhau bod y cynnwys mewn fformat addas i anghenion defnyddwyr

7 Gweithredu'r strategaeth

Gellir gweithredu'r strategaeth ar sail naw thema. Ceir diffiniad o'r rhain isod:

- Gweithredu'r Cynllun Mynediad Cynaliadwy a'r Cynlluniau Mynediad Parhaol
- Blaenoriaethu, darparu adnoddau a sicrhau cysondeb â strategaeth LIGC
- Ymgorffori a chynaliadwyedd
- System Rheoli Asedau Digidol a gweithdrefnau amlyncu
- Rheoli'r isadeiledd a storio
- Cynllunio cadwedigaeth
- Datblygu, sgiliau ac arloesedd
- Arfer gorau a hybu safonau
- Cydweithio a phartneriaethau

7.1 Cefnogir y strategaeth ar lefel weithredol gan Gynllun Mynediad Cynaliadwy. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r gweithgareddau angenrheidiol i sicrhau bod cynnwys digidol yn cael ei ddiogelu, a bod mynediad parhaus ato, yn gyson â'r model OAIS. Bydd yn gweithredu fel dogfen gyfeirio ar gyfer gweithgareddau gweithredol, yn seiliedig ar weithgaredd, cyfrifoldeb a monitro. Bydd yn cysylltu â'r Cynlluniau Mynediad Parhaol, a grëir ar gyfer bob prosiect sy'n cynhyrchu, neu'n casglu deunydd digidol.

7.2 Blaenoriaethu, darparu adnoddau a sicrhau cysondeb â strategaeth LIGC
Caddug, grŵp trawsadrannol, yn cynnwys Pennaeth Gwasanaethau Casgliadau (cadeirydd) a Phenaethiaid yr Isadrann Derbyn a Systemau, Gofal Casgliadau, TGCh ac Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru, neu eu cynrychiolwyr, fydd yn gyfrifol am benderfynu ynglŷn â blaenoriaethu, sicrhau adnoddau a monitro'r strategaeth.

7.3 Ymgorffori a chynaliadwyedd
Pennaeth Adain Gofal Casgliadau fydd yn gyfrifol am ymgorffori a chynnal cadwedigaeth trwy weithgareddau monitro a chynllunio cadwedigaeth. Bydd hyn yn cynnwys meincnodi i sicrhau cysondeb metadata, monitro'r Cynllun Mynediad Cynaliadwy ac adolygu'r Cynlluniau Mynediad Parhaol ar gyfer prosiectau unigol gan ddatblygu modelau costio.

7.4 System Rheoli Asedau Digidol (DAMS) a gweithdrefnau amlyncu
Rheolwr DAMS fydd yn gyfrifol am reoli a datblygu'r system rheoli asedau digidol. Y Rheolwr Amlyncu fydd yn gyfrifol am bolisiau a gweithdrefnau amlyncu a bydd y Rheolwr Safonau Digidol yn gweithio gyda'r Panel Safonau a Chysondeb i sicrhau cysondeb metadata. Yr Uned Derbyniadau fydd yn gyfrifol am ddewis yn unol â'r Polisi Datblygu Casgliadau.

7.5 Rheoli'r isadeiledd a gallu i storio

Darperir cymorth technegol gan Isadran Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu fydd yn gyfrifol am gaffael a rheoli caledwedd a meddalwedd TGCh, yn cynnwys trefniadau adfer mewn argyfwng a chopïau wrth gefn, gwasanaethau canolog ac amgylcheddau storio.

7.6 Cynllunio Cadwedigaeth

Gofal Casgliadau a Systemau a Derbyniadau fydd yn gyfrifol am hyn ar lefel strategol. Amlinellir cyfrifoldeb gweithredol yn y Cynllun Mynediad Cynaliadwy.

7.7 Ymchwil, sgiliau ac arloesedd

Bydd gwaith ymchwil, datblygu sgiliau ac arloesedd yn digwydd mewn amgylchedd hyblyg, gan gynnwys staff ar draws LIGC.

7.8 Arfer gorau a hybu safonau

Bydd LIGC yn parhau i arwain y gwaith o weithredu safonau ac arfer gorau. Bydd yn anfon cynrychiolwyr i gynadleddau ac yn cynnig cyngor ac arweiniad yng Nghymru a thu hwnt.

7.9 Partneriaethau a Chydweithio

Mae LIGC yn gweithio gyda nifer o unigolion a sefydliadau i gefnogi cadwedigaeth ddigidol. Mae'r rhain yn cynnwys partneriaeth gyda'r Llyfrgell Brydeinig a Llyfrgell Genedlaethol yr Alban i ddiogelu deunydd adnau cyfreithiol sy'n dod o dan gylch gorchwyl Deddf Llyfrgelloedd Adnau Cyfreithiol 2003.

Mae LIGC yn cydweithio gyda'r Archifau Cenedlaethol ac mae'n aelod o grŵp sy'n gyfrifol am weithredu'r Archifau ar gyfer llif gwaith cadwedigaeth ddigidol yr 21^{ain} ganrif.

Mae LIGC yn aelod o'r Gynghrair Cadwedigaeth Ddigidol, y Ganolfan Guradu Ddigidol, y Ganolfan Ymgynghori Cadwedigaeth a Sefydliad Open Planets. Mae'r cyrff hyn yn cydweithio i gefnogi cadwedigaeth ddigidol.

Mae LIGC wedi cyflenwi cynnwys i Europeana, y corff sy'n cynyddu mynediad at dreftadaeth ddiwylliannol a gwyddonol Ewrop, ac mae'n cefnogi argymhelliaid ³ y Comisiwn Ewropeaidd i sicrhau mynediad parhaus trwy gadwedigaeth ddigidol.

Yng Nghymru, mae LIGC yn cadeirio Grŵp Cadwedigaeth Ddigidol y Cyngor Archifau a Chofnodion ac mae'n aelod o'r bwrdd prosiect cadwedigaeth ddigidol. Mae'n gweithio gyda Rhwydwaith Cadwrfa Cymru i ddiogelu traethodau electronig a chyflenwi traethodau a gasglwyd i'r gwasanaeth Ethos. Mae LIGC yn gweithio gyda Chyngor Llyfrau Cymru i ystyried y posibilrwydd o sefydlu Cadwrfa Ddigidol Ddibynadwy (TDR) i helpu i ddiogelu allbwn cyhoeddwr yng Nghymru.

Bydd LIGC yn croesawu cyfleoedd i gydweithio ar gynlluniau cadwedigaeth ddigidol a chynaliadwyedd data.

³ Comisiwn Ewropeaidd: *Commission Recommendation on the digitisation and online accessibility of cultural material and digital preservation*, Brwsel: Comisiwn Ewropeaidd, 2011

8 Cysylltiadau â dogfennau mewnol eraill

Mae'r strategaeth hon yn gweithio o fewn fframwaith strategaethau cyffredinol LIGC: 2020: Golwg hirdymor ar Lyfrgell Genedlaethol Cymru (2010) a'r Llyfrgell Ystwyth: Strategaeth y Llyfrgell (2011-2014). Mae hefyd yn gyson â'r Polisi ar Ofal Casgliadau (2010), Polisi Datblygu Casgliadau (2010), y Strategaeth Ddigidol (2011-2014), y Strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (2011-2014) y Strategaeth Cyfryngau Digidol (2012-2015) a'r Strategaeth Disgrifio a Darganfod Adnoddau (2011-2013).

9 Rheoli Risg

Os na fydd LIGC yn parhau i weithredu a datblygu ei strategaeth i sicrhau cynaliadwyedd ei hasedau digidol yn y tymor hir, bydd yn colli ei hygredd fel Llyfrgell Genedlaethol ac ni fydd yn cyflawni telerau ei Siarter sy'n datgan mai swyddogaeth LIGC yw "*casglu, diogelu a rhoi mynediad at bob math a ffurf ar wybodaeth gofnodedig*". Bydd hefyd mewn risg o beidio â chydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth, 2000, a Deddf Diogelu Data 2003. Ni fydd yn cyflawni disgwyliadau ei ddefnyddwyr, bydd yn wynebu costau cynyddol i drwsio asedau digidol ac ni fydd gwasanaethau'n gallu cyfrannu at gynlluniau cydweithredol, na manteisio arnynt.